Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach
Clwb Criced Drefach
Heol Cae Gwyn
Drefach
Llanelli
SA14 7BB

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 07/01/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach yn cyfarfod yng Nghlwb Criced Drefach, ger Cross Hands, Sir Caerfyrddin.  Mae'r lleoliad ar agor pedwar bore a phum prynhawn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 22 o blant fesul sesiwn.  Ar hyn o bryd, mae 59 o blant rhwng dwy a phedair oed ar y gofrestr, gydag 20 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.  Mae nifer y plant sy'n mynychu wedi cynyddu yn y misoedd diwethaf.  Saesneg yw iaith y cartref i tua hanner y plant.  Mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae naw aelod o staff.  Mae'r mwyafrif yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach.  Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Tachwedd 2013.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Medi 2014 a chan Estyn ym Mawrth 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson ac yn datblygu ystod briodol o fedrau llythrennedd a rhifedd;
- y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu agweddau da tuag at ddysgu;
- yr ymarferwyr yn llwyddo'n dda i feithrin hyder y plant fel dysgwyr;
- yr ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y plant a'u hymrwymiad gweithredol yn eu dysgu;
- yr addysgu effeithiol yn annog plant i weithio'n annibynnol ac i arbrofi gyda phrofiadau newydd; a bod
- y plant yn derbyn gofal a chymorth da mewn amgylchedd dysgu cynnes.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- arweiniad cadarn yr arweinydd yn darparu ymdeimlad clir o bwrpas i waith y lleoliad;
- y defnydd adeiladol o fedrau'r ymarferwyr yn arwain at waith tîm effeithiol;
- y pwyllgor rheoli a'r swyddogion yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn effeithlon;
- dealltwriaeth dda gan yr arweinydd o gryfderau'r lleoliad a'r prif feysydd i'w gwella;
- yr arweinydd yn cyflwyno gwelliannau'n llwyddiannus; a bod
- partneriaethau yn cyfrannu'n adeiladol at waith y lleoliad.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau llafar Cymraeg y plant ymhellach

A2 Mireinio'r cynllunio i sicrhau bod gweithgareddau yn ymateb i anghenion dysgu'r holl blant yn gyson

A3 Arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn fwy manwl drwy ganolbwyntio ymhellach ar y dysgu a'r addysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y plant yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau. Mae ychydig o blant yn siarad Cymraeg yn hyderus gan ddefnyddio ystod briodol o eirfa. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth dda o gwestiynau a sylwadau'r oedolion ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae'r mwyafrif yn canu ystod o hwiangerddi a chaneuon yn frwdfrydig, ac yn gywir ar y cyfan. Mae rhan fwyaf y plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn deall fod geiriau a lluniau yn cyfleu ystyr. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau ar ffurf print. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer marcio yn bwrpasol i dynnu lluniau, creu siapiau a chopïo llythrennau a geiriau. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o rai o swyddogaethau ysgrifennu yn effeithiol, megis anfon cyfarchion ar ffurf carden bost a llythyr at Siôn Corn.

Gwna mwyafrif y plant ddefnydd cywir o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Maent yn adrodd rhifau i ddeg ac yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir ar y cyfan. Gallant ddidoli a chyfateb gwrthrychau yn ôl siâp, maint neu liw yn dda. Defnyddiant dermau mathemategol, megis mawr, canolig a bach, yn gywir mewn gweithgareddau ymarferol. Maent yn canu rhigymau cyfrif gwahanol gyda dealltwriaeth dda. Mae mwyafrif y plant yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol ac yn dechrau deall pwrpas arian drwy chwarae rôl yn y siop.

Mae mwyafrif y plant yn ddefnyddwyr cymwys o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol. Er enghraifft, maent yn medru ysgrifennu eu henwau ar lythyr i Siôn Corn gyda chymorth, creu lluniau a symud gwrthrychau ar y sgrin.

Mae mwyafrif y plant yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau datrys problemau mewn gweithgareddau megis chwilio am wrthrychau gwahanol yn y badell rhew a phlannu bylbiau yn yr ardd. Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau corfforol cadarn. Maent yn defnyddio offer torri, peintio a gludo gyda rheolaeth dda.

**Lles: Da**

Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac yn ffurfio perthynas effeithiol gyda phlant eraill ac oedolion. Mae'r mwyafrif yn cydweithio'n hapus â'i gilydd ac yn dyfalbarhau gyda'u tasgau am gyfnodau addas o amser.

Mae'r plant yn gyffredinol yn dangos diddordeb mawr yn y gweithgareddau a ddarperir. Mae'r mwyafrif yn hapus i wneud dewisiadau ac yn datblygu'n ddysgwyr hyderus. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r plant yn dda. Mae'r mwyafrif yn barod i rannu a chymryd eu tro.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo cyn bwyta byr brydau.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda. Maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau, megis 'helpwr y dydd' a thacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus. Maent yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau, megis cyngherddau, a drefnir ar gyfer rhieni a'r gymuned ehangach.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang a chytbwys o weithgareddau ar draws y chwe maes dysgu. Mae'r cynllunio'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ddiddordebau a chyfnod datblygiad y plant. Maent yn cynnwys topigau megis teithio, y jyngl a thestunau tymhorol. Mae rhai cyfleoedd i'r plant gynnig eu syniadau ar gyfer gweithgareddau. Mae gweithgareddau yn cael eu cynllunio'n effeithiol er mwyn ennyn diddordeb y plant a sicrhau eu hymrwymiad gweithredol yn eu dysgu. Er hyn, nid yw'r tasgau bob amser yn ymateb yn llawn i anghenion dysgu plant o ystod oed a gallu.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae defnydd adeiladol o sesiynau amser cylch a gwaith grŵp i'r plant wrando ar storïau, adnabod eu henwau, dysgu caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Mae defnydd effeithiol o'r ardal lyfrau i gael y plant i fwynhau edrych ar lyfrau. Mae cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau, ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o elfennau mathemategol, megis siâp, yn ystod gweithgareddau grŵp ac yn eu chwarae. Mae profiadau buddiol i'r plant ddatblygu ystod briodol o fedrau TGCh.

Mae cyfleoedd effeithiol i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant am draddodiadau a dathliadau Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae defnydd priodol o ymweliadau, megis â fferm antur, ac o gyfraniad pobl fel y nyrs, gweinidog a phostman i ymestyn profiadau dysgu'r plant.

**Addysgu: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr wybodaeth sicr o'r Cyfnod Sylfaen ac o ddatblygiad plant. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Mae cyfleoedd da i'r plant weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau bach. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r plant yn ystod gweithgareddau ac yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn eu geirfa.

Mae defnydd effeithiol o adnoddau gwahanol i gynnal a chefnogi'r dysgu. Er enghraifft, mae defnydd pwrpasol o ystod o wrthrychau, megis mapiau, glôb, lluniau a dillad, yn y siop deithio i hybu medrau cyfathrebu'r plant drwy chwarae rôl. Mae defnydd da o lyfrau stori i ddatblygu medrau meddwl a rhesymu'r plant. Enghraifft o hyn yw'r defnydd o stori'r Tri Mochyn Bach i ddatblygu gallu'r plant i roi stori mewn trefn.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddiant weithdrefnau addas i asesu ac olrhain eu cynnydd. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol yn glir. Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw priodol i'r wybodaeth a gesglir i adnabod agweddau cyffredinol neu fedrau sydd angen sylw. Mae defnydd llawn o'r wybodaeth i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer unigolion yn parhau i ddatblygu.

Mae'r lleoliad yn rhoi adborth rheolaidd i'r rhieni am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ac adroddiadau ysgrifenedig bob tymor.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r gweithdrefnau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant. Mae'r lleoliad wedi cychwyn ar raglen addysg iechyd cyn-ysgol ac yn rhoi sylw da i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am eu dannedd.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cael eu cynllunio'n ofalus gan gydlynydd profiadol. Mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol, megis gwasanaethau gofal plant a therapyddion lleferydd, er mwyn sicrhau cymorth priodol pan mae angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r asesiadau risg a wneir yn rheolaidd wedi eu cofnodi'n briodol.

Mae profiadau perthnasol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau dyddiol yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i hybu gwerthoedd megis pwysigrwydd ystyried eraill a bod yn garedig a chwrtais. Mae profiadau, megis dathliadau diolchgarwch a'r Nadolig, ac adrodd gweddi cyn byrbryd, yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae sylw da i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu rhai llai ffodus trwy gasglu arian at achosion da.

Caiff ymwybyddiaeth y plant o'r byd ehangach ei ddatblygu'n addas drwy ddysgu am ddiwylliannau a dathliadau pobl eraill megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae defnydd o weithgareddau, megis y siop deithio a thrafod taith Siôn Corn o amgylch y byd, yn hyrwyddo eu hymwybyddiaeth ymhellach.

Mae gweithgareddau pwrpasol yn datblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i barchu a gofalu am yr amgylchedd a phopeth byw. Maent yn cynnwys tyfu planhigion a llysiau, ailgylchu a chompostio.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn meithrin perthynas

gadarnhaol gyda'r plant. Maent yn rhoi ystyriaeth briodol i wahanol gefndiroedd ac anghenion plant.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ystod dda o adnoddau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn o'r neuadd drwy drefnu ardaloedd o weithgareddau amrywiol o amgylch yr ystafell. Caiff yr amgylchedd dysgu ei gyfoethogi trwy arddangosfeydd yn ymwneud â'r thema a thrwy rannu gwaith y plant. Nid oes ardal chwarae awyr agored ond mae'r estyniad dan do yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant archwilio ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae'r ardd newydd yn adnodd gwerthfawr ar gyfer gweithgareddau ymchwilio. Mae'r adeilad yn lan a diogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn arwain trwy esiampl ac yn darparu ymdeimlad cryf o bwrpas i waith y lleoliad. Mae hi'n creu ethos cadarnhaol ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn dangos ymrwymiad cadarn i addysg a lles y plant. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn ofalus.

Mae pwyllgor rheoli'r lleoliad yn cynnig cymorth da i'r ymarferwyr. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sydd yn sail i gynllunio pellach. Mae'r swyddogion yn ymgymryd â'u rolau yn gydwybodol ac yn cyfathrebu'n gyson a'i gilydd. Mae hyn yn hybu gwaith tîm effeithlon ar lefel ehangach.

Mae gan y lleoliad system addas ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol pellach. Mae'r arweinydd yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i gynllunio rhaglen hyfforddiant pellach i'r ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant, a hyrwyddo bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd i'w gwella. Mae'n monitro'r ddarpariaeth yn briodol drwy arsylwi, trafod gyda'r ymarferwyr a gwerthuso cynnydd plant. Mae'n cyflwyno gwelliannau yn effeithiol. Er enghraifft, mae modelu dulliau addysgu addas yn cefnogi staff yn effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen.

Mae defnydd priodol o gyfarfodydd staff i gynllunio  themâu a chyflwyno newidiadau o ran trefnu gweithgareddau.  Er hyn, mae cyfraniad yr ymarferwyr i brosesau arfarnu agweddau o'r dysgu a'r addysgu yn fwy anwastad.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw priodol i safbwyntiau plant, rhieni ac asiantaethau cymorth wrth gynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth.  Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd a rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.  Mae datblygiad yr ardd newydd fel sbardun ar gyfer ystod o weithgareddau yn enghraifft o hyn.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth.  Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn adnabod nifer o feysydd addas ar gyfer gwelliant.  Mae'n cynnwys targedau clir, yn gosod amserlen, yn nodi'r adnoddau fydd eu hangen ac yn amlinellu cyfrifoldebau.  Caiff y cynllun ei weithredu'n briodol.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n adeiladol gan athrawes gyswllt yr awdurdod addysg.  Mae meysydd i'w datblygu yn cael eu cytuno a gweithredir strategaethau perthnasol sydd yn datblygu'r ddarpariaeth.  Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan y lleoliad nifer o bartneriaethau sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad plant.  Caiff nodau ac amcanion y lleoliad eu rhannu gyda'r partneriaid.

Mae perthynas dda gyda'r rhieni a darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd, cyfarfodydd a chylchlythyron.  Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi polisi drws agored y lleoliad a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r ymarferwyr.

Mae'r cydweithrediad agos gyda'r pwyllgor rheoli, athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo'r lleoliad i ddatblygu ymhellach.

Mae'r partneriaethau adeiladol gyda'r ysgolion cynradd yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.  Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned leol yn dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a gwneir defnydd adeiladol o amser a medrau'r ymarferwyr.   Mae defnydd effeithiol o ddiddordebau unigolion ar gyfer arwain a chefnogi profiadau dysgu megis gweithgareddau TGCh,  amgylcheddol a chreadigol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd cynhyrchiol o adnoddau dysgu.

Mae mwyafrif yr ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant.  Mae trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion y plant yn ogystal ag anghenion yr ymarferwyr.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac mae gwariant yn cael ei flaenoriaethu'n addas yn ôl anghenion y lleoliad. Mae defnydd da o fentrau codi arian ac o grantiau er mwyn ychwanegu at yr adnoddau.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, y profiadau dysgu a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 18 | 11 | 6 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 61% | 33% | 6% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 18 | 12 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 18 | 14 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 18 | 13 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 18 | 13 | 3 | 0 | 0 | 2 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 18 | 14 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 18 | 13 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 72% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 18 | 11 | 7 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 18 | 13 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 17 | 9 | 6 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 53% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 18 | 11 | 4 | 1 | 0 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 61% | 22% | 6% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 18 | 12<br>67% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 18 | 10<br>56% | 4<br>22% | 2<br>11% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 30% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 18 | 11<br>61% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 70% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 18 | 12<br>67% | 4<br>22% | 1<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 31% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |